



Dyheu · Dysg · Daioni

Gweledigaeth Clwstwr Cwm Rhondda

Gwnawn Gwm Rhondda'n falch o Gymru
a Chymru'n falch o Gwm Rhondda.

Mae gwreiddiau ddoe yn ymestyn drwy'r tir,

Ymestyn gan fwydo ein hanes hir,

Gan greu cymuned o ysgol fyw

Yn perthyn heddiw, bob llun a lliw.

Mae pŵer heddiw yn ein dwylo i gyd,

i greu yfory sy'n well o hyd.



Dyheu · Dysg · Daioni

Cyflwyniad i Cwricwlwm Cwm Rhondda

- Am dros 4 mlynedd mae staff yr ysgol, dysgwyr, rhieni, gofalwyr a llywodraethwyr wedi gyrru'r newid tuag at gweledigaeth a realiti Cwricwlwm Cwm Rhondda. Mae'r gwaith yn deilluo o weithgorau staff, cyngor yr ysgol ac holiaduron i ddysgwr, rhieni a gofalwyr.
- O fewn y cyflwyniad hyn fe welwyd blas o'r profiadau health fydd dysgwyr Blwyddyn 7 Cwm Rhondda yn ei dderbyn yn ystod tymor yr Hydref.
- Mae dogfennaeth y meysydd dysgu hefyd yn amlinellu darpariaeth ar gyfer y sgiliau trawscwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol; addysg cydberthynas a rhywioldeb; crefydd, gwerthoedd a moeseg; Cymraeg a Saesneg.
- Erbyn haf 2024, bydd asesu ac adrodd yn adlewyrchu camau cynnydd a chynllun asesu penodol yr ysgol. Bydd wedi'i rhannu gyda dysgwyr, rhieni, gofalwyr a rhanddeiliaid yr ysgol.



Dyheu · Dysg · Daioni

Model Cwricwlwm Blwyddyn 7

Cynlluniwyd cwricwlwm Cwm Rhondda ar sail 6 Maes Dysgu a Phrofiad:

- Mathemateg a Rhif
- Iaith a Chyfathrebu
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Dyniaethau
- Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles



Dyheu · Dysg · Daioni

Profiadau Mathemateg a Rhif Blwyddyn 7

Thema tymor 1 yw 'Rhif ac Algebra'.

Yn ystod y tymor, bydd disgyblion yn derbyn cyfleoedd i:

- Datrys problemau sy'n ymwneud a Gwerth Lle, Ffracsiynau, Canrannau a Degolion, Y Pedwar Gweithred ac Arian.
- Datrys problemau sy'n ymwneud a Dilyniannau, Symbolau a Gweithdrefnau Algebraidd a Datrys Hafaliadau.
- Archwilio hanes Mathemategwyr enwog, gyrfaoedd sy'n dibynnu ar Fathemateg a defnyddio Mathemateg mewn cyd-destun y byd go iawn.



Dyheu · Dysg · Daioni

Profiadau Iaith a Chyfathrebu (Cymraeg)

Blwyddyn 7

Thema tymor 1 yw **'Fy Milltir Sgwâr'**.

Yn ystod y tymor bydd disgyblion yn derbyn cyfleoedd i ymateb i dasgau llafar, darllen ac ysgrifennu. Bydd disgyblion yn datblygu sgiliau llafar trwy gyflwyno gwybodaeth a mynegi barn. Byddent yn datblygu eu sgiliau darllen trwy ddarllen amrywiaeth o destunau. Byddent yn dysgu sut i ddadansoddi testunau a'u cymharu. Bydd disgyblion yn derbyn cyfleoedd i ysgrifennu'n berswadiol ac yn greadigol.

Yn ystod y tymor, bydd disgyblion yn derbyn cyfleoedd i:

- Ddatblygu eu sgiliau llafar grŵp
- Gyflwyno gwybodaeth ar lafar
- Ddarllen a deall
- Ddarllen a dadansoddi gwybodaeth
- Ysgrifennu'n berswadiol
- Ddatblygu ysgrifennu creadigol
- Ddatblygu gwybodaeth am reolau gramadegol



Dyheu · Dysg · Daioni

Profiadau Iaith a Chyfathrebu (Saesneg)

Blwyddyn 7

Mae'r gwaith y tymor yn cael ei datblygu o gwmpas y thema “**plentyndod**”.

Yn ystod y tymor bydd disgyblion yn cael cyfleoedd i ymateb I dasgau llafar, darllen ac ysgrifenedig. Mae'r sgiliau'r pwnc yn cael eu ddatblygu trwy profiadau i gyfleu gwybodaeth, ysgrifennu personol a creadigol, a darllen amrwyiaeth o destunnau. Mi fydd disgyblion yn dysgu sut i ddadansoddi, gan gynnwys ysgrifennu am sut mae awdur yn creu cymeriadau.

Yn ystod y tymor, bydd disgyblion yn cael cyfleoedd i:

- Datblygu siarad ar gyfer cyd-weithio
- Defnyddio ei sgiliau siarad ar gyfer cyflwyno
- Darllen i ddangos dealltwriaeth
- Darllen i ddadansoddi
- Datblygu ysgrifan anlenyddol
- Ysgrifennu'n creadigol
- Euhangu eu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ramadeg ac atalnodi.



Dyheu · Dysg · Daioni

Profiadau Iaith a Chyfathrebu (Saesneg)

Blwyddyn 7

Yn ystod tymor 1, bydd cyfleoedd penodol i:

- Ysgrifennu mewn amryw o ffurfiau, gan gynnwys y person cyntaf
- Datblygu eu dealltwraieth o ddefnydd cywir o ferfenwau
- Strwythuro eu hysgrifennu menw ffurfiau priodol i ymateb i ofynion tasgau penodol
- Defnyddio mapiau meddwl ar gyfer datblygu syniadau a geirfa
- Datblygu sgiliau cynllunio
- Trafod bywydau eu hun a phrofiadau
- Datblygu eu defnydd o iaith disgrifiadol a chreadigol e.e. cymariaethau
- Darllen nofelau addas
- Trafod sut mae cymeriadau yn cael eu cyflwyno
- Dadansoddi sut mae awduron yn ddefnyddio geiriau i greu ystyr
- Datblygu ysgrifennu estynedig e.e. stori hunangofiant
- Trafod eu hardal lleol
- Adlewyrchu ar gyfleusterau lleol
- Trafod sut mae awduron yn perswadio
- Defnydd o nodweddion arddull



Dyheu · Dysg · Daioni

Profiadau Iaith a Chyfathrebu (Almaeneg)

Blwyddyn 7

Mae'r themau hyn wedi cael eu datblygu ar y thema "Pob dim amdanai".

Yn ystod y tymor cyntaf, bydd disgyblion yn datblygu eu sgiliau gwranddo, siarad, darllen ac ysgrifennu. Byddant yn dechrau deall a defnyddio terminoleg ieithyddol benodol i drafod eu dysgu ac ymchwilio i reolau gramadegol. Byddant yn cydnabod ac yn gallu defnyddio'r amser presennol i siarad amdanynt eu hunain.

-
- **Yn ystod y tymor bydd disgyblion yn profi:**
- Herio stereoteipiau traddodiadol a negyddol 'Yr Almaenwyr'.
- I ddechrau deall y gwahaniaethau a'r tebygrwydd rhwng diwylliannau Almaeneg a Chymru.
- Datblygu strategaethau i ddeall prif bwyntiau'r hyn sy'n cael ei fynegi.
- Datblygu strategaethau i fynegi eu syniadau eu hunain fel y gellir eu deall.
- Datblygu sgiliau rhifedd mewn Almaeneg i newid rhifau cardinal i rifau trefnol.



Dyheu · Dysg · Daioni

Profiadau Gwyddoniaeth a Thechnoleg (Gwyddoniaeth) Blwyddyn 7

Mae'r gwaith y **hanner tymor cyntaf** yn cael ei datblygu o gwmpas y thema “**Diogelwch**”.

Mi fydd disgyblion yn astudio rheolau labordy, symbolau diogelwch, offer labordy, y llosgydd bunsen, ysgrifennu dull gwyddonol ac ymarfer sgiliau graffiau llinell. Mi fydd disgyblion yn gwneud prawf offer a symbolau diogelwch ac yn derbyn canran. Mi fydd targed yn cael ei osod yn erbyn y meini prawf llwyddiant.

Bydd y disgyblion yn cynnal ymchwiliad i ddarganfod ar ba tymheredd mae dwr yn berwi. Mi fydd disgyblion yn:

- cynllunio dull a tabl am yr ymchwiliad ac yn plotio graff llinell o'r canlyniadau
- derbyn meini prawf llwyddiant ac yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf llwyddiant
- derbyn targed ac yn cael y cyfle i wella'r gwaith.



Dyheu · Dysg · Daioni

Profiadau Gwyddoniaeth a Thechnoleg (Gwyddoniaeth) Blwyddyn 7

Mae'r gwaith yr **ail hanner tymor** yn cael ei datblygu o gwmpas y thema "**Cynefin**".

Mi fydd disgyblion yn astudio bioamrywiaeth yn yr ysgol. Nesaf bydd astudiaeth o cynefinoedd ac addasiadau organebau i goroesi yn y cynefin gan gynnwys y camel / arth-wen a phengwin. A sut maent yn cystadlu er mwyn goroesi.

Bydd disgyblion yn:

- cynllunio cadwyni bwyd/gweoedd fwyd a pyramidau bwyd
- disgrifio sut mae pethau byw yn cystadlu am adnoddau penodol ac yn dibynnu ar ei gilydd er mwyn goroesi
- disgrifio nodweddion organebau ac adnabod sut mae'r nodweddion hyn yn galluogi'r organebau i fyw, tyfu ac atgenhedlu er mwyn gallu goroesi yn eu hamglychedd.



Dyheu · Dysg · Daioni

Profiadau Gwyddoniaeth a Thechnoleg (Technoleg Digidol) Blwyddyn 7

Thema tymor 1 yw 'Cwis Rhyngweithiol ar Diogelwch yn y Labordi a'r Gweithdy'.

Yn ystod y tymor, bydd disgyblion yn derbyn cyfleoedd i:

- Cynllunio a chreu gêm rhyngweithiol sy'n datblygu dealltwriaeth o ardal o waith a astudiwyd yng ngwersi Gwyddoniaeth neu Ddylunio a Thechnoleg. Gall y cwis cynnwys:
- Lluniau, Sain, Animeiddiadau a Thrawsnewidiadau;
- Botymau a Hypergylltiadau i wefannau i ddarganfod mwy o wybodaeth;
- Cwestiynau heriol sydd mynd i arwain at ddysgwyr i ddysgu mwy am aros yn ddiogel mewn labordy neu weithdy.



Dyheu · Dysg · Daioni

Profiadau Gwyddoniaeth a Thechnoleg (Technoleg) Blwyddyn 7

Thema tymor 1 yw **Cynefinoedd ac Ecosystemau**. Lle bydd myfyrwyr yn ymchwilio ac yn dylunio gwesty chwilod gan ddefnyddio adnoddau wedi'u hadennill i helpu bywyd gwyllt

Yn ystod y tymor, bydd disgyblion yn derbyn cyfleoedd i:

- weithio'n annibynnol ac o fewn tîm i ddatrys problemau.
- wneud ymchwil cynradd ac uwchradd a fyddai'n arwain at syniadau dylunio.
- ddatblygu syniadau dylunio 2D i mewn i syniad terfynol 3D gan ddefnyddio sgiliau isomedrig.
- greu eu dyluniad terfynol trwy greu prototeip.
- ddysgu sgiliau ymarferol o ddefnyddio offer llaw yn y gweithdy – fel ffeiliau fflat, llifiau ymdopi a dril pŵer.
- Adeiladu gwesty pryfed allan o bren cynaliadwyedd.



Dyheu · Dysg · Daioni

Profiadau Dyniaethau

Blwyddyn 7

Thema tymor 1 yw 'Y Gemau Olympaidd ddoe a heddiw'.

Yn ystod y tymor, bydd disgyblion yn derbyn cyfleoedd i ddysgu am hanes a ddatblygiad y Gemau Olympaidd ar hyd y byd. Byddant yn datblygu sgiliau llafar trwy ymateb i wybodaeth a mynegi barn am y Gemau Olympaidd. Byddant yn datblygu sgiliau rhifedd wrth ddadansoddi mapiau o'r byd. Bydd disgyblion yn addysgu am hanes Muhammad Ali ac yn datblygu sgiliau pwyso a mesur gwybodaeth a barn am ddigwyddiad hanesyddol. Bydd disgyblion yn ehangu eu sgiliau darllen trwy ddarllen ac ymchwilio am y grefydd Islam ac yn ehangu eu sgiliau moeseg. Byddant yn archwilio i hanes Pwer Du ac Apartheid yn Ne Affrica. Wrth astudio'r hanes byddant yn ymchwilio i mewn i Dde Affrica presennol, gan addysgu am ei ddaearyddiaeth. Bydd disgyblion yn datblygu eu sgiliau creadigol gan greu pamffled ar y Gemau Olympaidd presennol a thaflen gwybodaeth am Dde'r Affrig fel wlad.

Yn ystod y tymor, bydd disgyblion yn derbyn cyfleoedd i:

- Adnabod sgiliau map, e.e. cyfeiriad cwmpad
- Trefnu gwybodaeth am y Gemau Olympaidd
- Ymchwilio i mewn i gyfres o grefyddau, gwledydd a achlyusron hanesyddol.
- Datblygu sgiliau darllen am Muhammad Ali, Pwer Du a Apartheid.
- Gallu dadansoddi gwybodaeth er mwyn dod i farn.
- Creu taflenni gwybodaeth a phamffledu creadigol ar destunau yn ymwneud â'r Gemau Olympaidd.
- Adnabod crefyddau gwahanol – tebygrwydd ac annebygrwydd crefyddau.
- Sgiliau labeli mapiau.



Dyheu · Dysg · Daioni

Profiadau Celfyddydau Mynegiannol (Celf)

Blwyddyn 7

Mae gwaith y tymor yn cael ei datblygu o gwmpas y thema “_____”.

Yn ystod yr **hanner tymor cyntaf** mi fydd y dysgwyr yn edrych ar egwyddorion a sgiliau hanfodol ar gyfer creu portreadau cywir, tra datblygu’r sgiliau:

- darlunio nodweddion yr wyneb i raddfa cywir
- darlunio uniongyrchol gan ddefnyddio techneg grid mesur (o ffotograffau personol)
- creu arlliw wrth gysgodi
- Graddfa.

Ac wedyn yn ystod yr **ail hanner tymor** mi fydd y dysgwyr yn adeiladu ar waith ymchwil blaenorol a datblygu gwaith creadigol sy’n ymateb i waith portreadu arlunwyr eraill. Tra datblygu’r sgiliau:

- gwaith pastel nodwedd yr wyneb.
- darlunio gan ddefnyddio llinell di dor.
- ymateb yn ystyrlon i waith cyd-destunol perthnasol (lucian freud a alexander calder).
- creu 3d wrth ddefnyddio gwifren neu gwllân.



Dyheu · Dysg · Daioni

Profiadau Celfyddydau Mynegiannol (Cerddoriaeth) Blwyddyn 7

Thema hanner tymor 1 yw **'Polirhythmau'**.

Yn ystod y tymor, bydd disgyblion yn derbyn cyfleoedd i:

- Ddysgu am bolirhythmau drwy wrando ar esiamplau, perfformio mewn ensemble dosbarth a chyfansoddi polirhythmau ei hun.

Thema tymor 2 yw **'Fi Fy Hun'**.

Yn ystod y tymor, bydd disgyblion yn derbyn cyfleoedd i:

- I gyfansoddi cerddoriaeth i gyfleu emosiynau gwahanol gan ddefnyddio Chrome Music Lab.



Dyheu · Dysg · Daioni

Profiadau Celfyddydau Mynegiannol (Drama) Blwyddyn 7

Yn ystod yr hanner tymor cyntaf fyddwn yn creu darn o theatr fer i'w pherfformio o flaen y dosbarth. Mae'r prosiect yn defnyddio sbardun i yrru'r gwaith. Byddwn yn datblygu sgiliau perfformio gan arddangos reolaeth a chywirdeb wrth greu.

Mae'r pwyslais ar gynwysoliaeth a gwaith grwp. Dymunwn dyfu chwilfrydedd am fod yn greadigol a datblygu sgiliau wrth fireinio cynyddol.



Profiadau Iechyd a Lles - Blwyddyn 7

Dyheu · Dysg · Daioni

Gwersi Lles:

- *Delweddau delfrydol* -Sut mae cymdeithas yn disgwyl i ni edrych,Sut mae hyn wedi newid dros y blynyddoedd, - Beth mae hyn yn gostio- amser a chost ·
- *Teimlo'n dda* ·
- *Gwerthfawrogi ein hunain* ·
- *Cymhelliant* ·
- *Rheoli gwrthdaro*
- *Bwlio* -Seibr -Geiriol -Corfforol · Effeithiau · Beth i wneud/ ble i gael cymorth
- *Y glasoed*

- **Gwersi Addysg gorfforol / ffitrwydd**
- Amrywiaeth o weithgareddau cystadleuol- Hoci, Pel rwyd, Pel droed, Rygbi.
- Newidiaudau byr dymor o ymarfer corff, addasiadau corfforol a meddyliol.

Sut gallwch chi cefnogi'ch plentyn?

- Gallwch chi wneud gwahaniaeth gwirioneddol trwy annog eich plentyn i ddarllen, hyd yn oed am ddim ond 10 munud y dydd. Gall y deunydd darllen hyn amrywio; e.e. gwefannau, aps, gemau, ac ati, yn ogystal â llyfrau a chylchgronau.
- Os yw'ch plentyn yn ymwybodol o'r newyddion diweddaraf, bydd yn eu helpu i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r gymuned leol, genedlaethol a byd-eang. Ceisiwch eu hannog i ddarllen y papur newydd neu'r newyddion ar y we unwaith neu ddwywaith yr wythnos.
- Wrth edrych ar filiau'r cartref, trafodwch â nhw beth mae'r bil yn ei ddangos a'r amrywiol opsiynau o ran sut i dalu. Mae hon yn sgil bywyd werthfawr.
- Ceisiwch gysylltu rhai o weithgareddau'r teulu ar y penwythnos â'r hyn maen nhw'n ei ddysgu yn yr ysgol ar y pryd. Bydd yn helpu i sicrhau bod dysgu yn fwy o hwyl.
- Anogwch eich plentyn i wneud ei orau glas gyda'i waith cartref ac i'w gwblhau'n brydlon.